## Beth am gyngor cyfreithiol?

Nid ydych yno er mwyn rhoi cyngor cyfreithiol i'r unigolyn, ac ni ddylech geisio gwneud.

Os ydy'r unigolyn yn hepgor eu hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, holwch iddyn nhw pam. Mae llawer yn dweud na oherwydd eu bod yn poeni y bydd yn cymryd yn hirach, yn costio arian neu fod ymgynghorwyr cyfreithiol ar ddyletswydd yn gweithio i'r heddlu.

**Mae gennych yr hawl gofyn am alw ymgynghorydd cyfreithiol os ydych yn ystyried ei bod er budd gorau'r unigolyn – hyd yn oed os ydynt wedi gwrthod.** Os ydych yn gwneud, rhaid i'r heddlu ofyn i ymgynghorydd cyfreithiol ddod a dweud wrth yr unigolyn pan maent yn cyrraedd. Fodd bynnag, ni all yr unigolyn gael eu gorfodi i'w gweld nhw pan maen nhw'n cyrraedd.

Dylai ymgynghorwyr cyfreithiol fynd i'r orsaf heddlu yn y cnawd (yn hytrach na rhoi cyngor dros y ffôn) pryd bynnag mae angen oedolyn priodol.

## A ddylwn i fod yn bresennol ar gyfer ymgynghoriad cyfreithiol?

Nid oes hawl gennych chi ddod i ymgynghoriad preifat rhywun o dan amheuaeth hefo'u ymgynghorydd cyfreithiol. Penderfyniad yr un o dan amheuaeth ydy penderfynu a ydyn nhw eisiau i chi fod yno.

Gall fod yn ddefnyddiol i chi fod yn bresennol os ydych yn meddwl y gall yr unigolyn gael anhawster deall y cyngor cyfreithiol a roddir iddyn nhw.

Fodd bynnag, bydd angen i chi a'r ymgynghorydd cyfreithiol wneud yn siŵr fod yr unigolyn yn deall mai ond eu hymgynghorydd cyfreithiol sy'n cael eu hyswirio'n uniongyrchol gan fraint gyfreithiol. Mae hyn yn golygu na ellir holi eu hymgynghorydd cyfreithiol am yr hyn a ddywedwyd mewn ymgynghoriad, un ai gan yr heddlu neu yn y llys.

Efallai na fydd eich presenoldeb yn disodli braint gyfreithiol ac mae oedolion priodol o dan eu dyletswydd cyfrinachedd eu hunain. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn gymhleth a (mewn amgylchiadau eithriadol) gallech chi gael ei holi fel tyst o hyd. Bydd ymgynghorwyr cyfreithiol yn awyddus gwarchod eu cleient rhag risgiau cyfreithiol, felly gall fod yn ddefnyddiol egluro pam fod yr unigolyn eich angen chi a'ch bod yn deall eich cyfrifoldebau chi.

# NAAN | Gwybodaeth

## Pwy greodd y daflen hon?

Crëwyd y daflen hon gan y Rhwydwaith Oedolion Priodol Genedlaethol (rhif elusen cofrestredig: 1104765).

Mae NAAN yn elusen annibynnol. Ei nod ydy i bob plentyn ac unigolyn bregus gael oedolyn priodol effeithiol.

## Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Mae hi wedi cael ei llunio ar gyfer rhieni, gofalwyr, perthnasau, ffrindiau neu oedolion priodol heb eu hyfforddi eraill a allai gael eu galw er mwyn cynorthwyo rhywun maen nhw'n eu hadnabod. Mae'n rhoi trosolwg syml o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau.

Os ydych yn gweithredu fel oedolyn priodol mewn gallu proffesiynol, mae hyfforddiant llawn yn cael ei argymell yn gryf.

## Ble allaf gael mwy o wybodaeth?

Ewch ar ein gwefan am fwy o wybodaeth, gan gynnwys ein Canllaw Manwl ar ddod yn Oedolyn Priodol sy'n hawdd i'w lawrlwytho.

www.appropriateadult.org.uk

admin@appropriateadult.org.uk

@AA_NAAN

facebook.com/appropriateadult

**Gall y daflen hon gael ei hargraffu, ei chopïo a'i dosbarthu'n rhydd.**

**Diweddarwyd mis Medi 2018**

National Appropriate Adult Network

# Canllaw cyflym i oedolion priodol

## Beth ydy fy rôl?

Eich rôl chi ydy gwarchod hawliau, hawliadau a lles rhywun o dan amheuaeth sydd un ai o dan 18 oed neu sydd yn unigolyn bregus. Gall yr unigolyn rydych yn ei gynorthwyo:

- cael anhawster deall neu gyfathrebu'n effeithiol am oblygiadau llawn
- gweithdrefnau a phrosesau'r heddlu
- dim deall arwyddocâd yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw, yr hyn sy'n ofynnol ganddyn nhw, neu eu hatebion drysu am eu sefyllfa
- derbyn awgrymiadau gan bobl eraill yn ddi-gwestiwn neu heb wybod neu ddymuno gofyn
- darparu gwybodaeth annibynadwy, camarweiniol neu hunan-argyhuddiadol yn anfwriadol..

Felly, bydd disgwyl i chi:

- cynorthwyo, cynghori a'u cynorthwyo nhw pan maent yn derbyn neu os gofynnir iddyn nhw roi gwybodaeth neu gymryd rhan mewn unrhyw weithdrefn
- arsylwi os ydy'r heddlu'n gweithredu'n iawn ac yn deg er mwyn parchu eu hawliau a'u hawliadau, a hysbysu swyddog am reng arolygydd neu uwch os ydych yn ystyried nad ydy'r heddlu'n gwneud
- eu cynorthwyo nhw gyfathrebu hefo'r heddlu wrth barchu eu hawl i ddweud dim oni bai eu bod eisiau (fel y disgrifir pan maent yn cael eu rhybuddio)
- eu cynorthwyo nhw ddeall eu hawliau a sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu gwarchod a'u parchu.

## Beth ydy hawliau'r un o dan amheuaeth?

Rhaid i'r heddlu ddweud wrth yr unigolyn am eu hawliau a'u hawliadau. Yn y ddalfa, mae'r rhain yn cynnwys:

- cael cyngor cyfreithiol annibynnol, am ddim
- hysbysu rhywun eu bod nhw wedi cael eu arestio
- darllen Codau Ymarfer PACE
- cael cymorth meddygol am ddim
- parhau'n dawel
- cael gwybod am yr hyn maen nhw o dan amheuaeth amdano a gweld unrhyw gofnodion ynghylch pam maen nhw wedi cael eu harestio
- cael cyfieithu neu ddehongli am ddim
- cysylltu hefo'u swyddfa conswl neu lysgenhadaeth
- cael gwybod pa mor hir maen nhw'n gallu cael eu cadw (hyd at uchafswm o 24 awr fel arfer).

Gall yr unigolyn ddefnyddio'r hawliau hyn unrhyw bryd tra maen nhw yn y ddalfa. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai bydd rhai neu'r holl hawliau hyn yn cael eu hoedi.

Rhaid i'r heddlu roi hysbysiad ysgrifenedig i'r unigolyn am eu hawliau a'u hawliadau, yn egluro sut ddylai'r heddlu eu trin nhw.

Rhaid i unrhyw un o dan amheuaeth sydd o dan 18 neu sy'n fregus gael eu hysbysu o ddyletswyddau'r oedolyn priodol. Rhaid dweud wrthyn nhw eu bod nhw'n gallu siarad hefo'r oedolyn priodol yn breifat unrhyw dro.

## Sut ydw i'n gwybod os ydy'r heddlu'n gweithredu'n deg?

Rhaid i'r heddlu ddilyn Codau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984.

Mae'r Codau'n amlinellu eu grymoedd, eu cyfrifoldebau a'u gweithdrefnau'n fanwl. Rhaid i'r heddlu wneud copïau ar gael i rai o dan amheuaeth ac oedolion priodol. Gallwch hefyd eu cael nhw ar-lein ar www.gov.uk.

Nid ydy Swyddog y Ddalfa yn gysylltiedig hefo ymchwilio troseddau. Maen nhw'n gyfrifol am ofal a lles pobl sy'n cael eu carcharu. Rhaid iddynt sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn gyflym a theg.

## Beth ydy fy hawliau fel oedolyn priodol?

Amlinellir eich hawliau yng Nghodau PACE ac maent yn cynnwys:

- cael gwybod pam fod yr unigolyn cael eu carcharu
- arolygu cofnod dalfa'r unigolyn unrhyw dro a chael copi ohono wrth iddynt gael eu rhyddhau
- gweld yr Hysbysiad Hawliau a Hawliadau
- gweld copi o Godau Ymarfer PACE
- gofyn am gyngor cyfreithiol pan gaiff ei wrthod
- ymyrryd mewn cyfweliadau lle mae'n briodol.

## Pryd mae angen i mi fod yn bresennol?

Mae'r Codau PACE yn gofyn i'r heddlu sicrhau fod oedolyn priodol yn bresennol am lawer o weithdrefnau, gan gynnwys pan mae'r unigolyn yn:

- cael gwybod am eu hawliau a'u hawliadau (neu mae rhaid eu hailadrodd pan maent yn cyrraedd)
- cael rhybudd (neu mae rhaid ei ailadrodd pan maent yn cyrraedd)
- gorfod cael eu noeth chwilio neu'n derbyn chwiliad personol (yn amodol ar eithriadau cyfyngedig llym)
- ynghlwm mewn unrhyw fath o weithdrefn nodi gan gynnwys samplau DNA, olion bysedd, lluniau, samplau neu olion esgidiau
- yn cael prawf cyffuriau dosbarth A
- yn cael cais i roi caniatâd i weithdrefn a phryd maen nhw'n rhoi'r caniatâd hwnnw.

Dylai'r heddlu hefyd roi hysbysiad rhesymol i chi fel eich bod chi ar gael pan:

- maent yn adolygu a oes dal angen cadw unigolyn yn y ddalfa (mae'r rhain yn digwydd ar ôl 6 awr, yna 9 awr, ac yna 9 awr arall)
- gwneir unrhyw benderfyniad er mwyn awdurdodi carchariad estynedig i 36 awr gan uwch swyddog heddlu (mae hyn yn brin iawn)
- penderfynu ynghylch cyhuddo'r unigolyn (gan gynnwys pan mae'r heddlu'n defnyddio mechnïaeth, rhybudd neu rybudd amodol).

## Beth ddylwn ei wneud mewn cyfweliad?

Rhaid i chi fod yn bresennol ar gyfer cyfweliadau. Nid oes hawl gennych chi rwystro cwestiynau iawn yn afresymol neu atal rhywun rhag rhoi atebion os ydynt yn dymuno. Fodd bynnag, dylech:

- gwirio fod yr unigolyn yn deall y rhybudd a roddir ar ddechrau'r cyfweliad yn llawn
- arsylwi os ydy'r cyfweliad yn cael ei gynnal yn iawn a theg ond  peidiwch gweithredu fel arsylw yn unig
- ymyrryd os ydych yn teimlo bod angen er mwyn cynorthwyo'r unigolyn gyfathrebu'n effeithiol, wrth barchu eu hawl i dawelwch
- ymyrryd os ydych yn teimlo fod y cwestiynau'n ddryslyd, ailadroddus neu'n ormesol, neu os oes gennych bryderon fel arall
- gofyn am egwyl yn y cyfweliad os ydych yn teimlo fod yr unigolyn angen gorffwys neu os ydych yn teimlo eu bod angen cyngor cyfreithiol, neu os ydych eisiau siarad hefo nhw'n breifat
- cynghori'r unigolion ond ddim rhoi cyngor cyfreithiol
- os gofynnir i'r unigolyn gytuno i neu arwyddo unrhyw ddogfennau, sicrhewch ei fod yn gytundeb hysbys
- siarad hefo Swyddog y Ddalfa ar unwaith os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion ynghylch sut y cynhelir cyfweliad.

## A ydy cyfweliadau gwirfoddol yn wahanol?

Os nad ydy hi'n angenrheidiol arestio rhywun o dan amheuaeth, gall yr heddlu ofyn iddyn nhw gael eu cyfweld yn wirfoddol. Gall hyn ddigwydd mewn gorsaf heddlu neu rywle arall.

Nid ydy hyn yn golygu nad ydy'r mater yn ddifrifol neu na fydd yr unigolyn cael eu cyhuddo.

Rhaid i'r heddlu ddilyn y rheolau o hyd yn y Codau Ymarfer PACE. Rhaid i'r swyddog cyfweliad gymryd holl gyfrifoldebau Swyddog y Ddalfa.

Mae gan yr unigolyn yr un hawliau a hawliadau.

Mae rôl yr oedolyn priodol yr un fath.